

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 6^{ED} CHWFROR 2019 YN FESTRI CAPEL Y CWM, LLANGERNYW

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd pawb gan Einir Willaims (EW)

1.2 Presennol: Diane Roberts(DR), Ann Vaughan (AV) Elen H. Edwards (EHE), Garffild Lloyd Lewis (GLL), R. Emlyn Williams (REW), Gwyn Williams (GW) a Gwynfor Davies (GD)

1.3 Ymddiheuriadau: Clwyd Roberts a Gwydion Jones

2 DATGAN DIDDORDEB

GD – pwynt rhif 9 ar yr agenda. Dim cysylltiadau eraill i'w datgan.

3 COFNODION I'W GWIRO

28^{ain} Tachwedd 2018 - Pwyntiau'n codi:

- Llythyr i BDO heb ei wneud – DR a EHE i ddelio a hwn.
- Mainc ger ochr chwith porth yr eglwys.
- Rhestr o adeiladau gwag – EW i'w yrru ymlaen i EHE.
- Newid cyfeiriad ar ddogfen *precept* – EW yn delio.
- GL i chwilio am ebost i adran Cyngor Conwy sydd yn delio efo gobhebiaeth gan y Cyngor Cymuned. GLL i holi hefyd sut i fynd o gwmpas trefnu hysbysebu am gynghorydd newydd a'r camau sydd angen eu cymeryd.
- Biliau – GD yn holi am y bil dŵr i'w dalu, EW efo'r bil a'i roi i GD i ddelio.
- Gadlas – EHE yn holi cheque 2 arwyddo
- Tro peryglus ar ffordd Llansannan – wedi bod yn iawn yn y rhew diweddar.
- Siarter y Cynghorau – i'w roi ar Agenda mis nesa.

12^{fed} Rhagfyr 2018 – dim pwyntiau'n codi.

9^{fed} Ionawr 2019 – nodi fod Elen H. Edwards a Clwyd Roberts yn y cyfarfod hefyd.

Cynnigwyd fod y tri cofnod yn gywir fel arall gan REW ac eilwyd gan EHE.

4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD

4.1 Adeiladau'r Hen Efail - GLL wedi cael cyfarfod efo'r perchennog (Annie Mackeson Sandbach) ar yr 29^{ain} o Ragfyr 2018. Adroddod GLL fod y perchennog i ddechrau wedi gwadu fod yr adeilad yn beryglus a thrafodwyd fod ceisiadau cynllunio yn y gorffennol wedi eu gwrthod. Ar ôl trafodaeth gyda hi, cydnabyddodd fod y lle'n beryglus ond nid oedd am fuddsoddi i'w gwneud i fyny. Cynnigiodd ddwy opsiwn i'r Cyngor Cymuned: 1) eu rhoi i'r gymuned yn y cyflwr presennol ar brydles tymor hir 25 mlynedd am £1 ar yr amod ei fod yn cael eu ddefnyddio er llês y gymuned (ddim yn angenrheidiol y Cyngor Cymuned) neu; 2) byddai yn ystyried ei ddymchwel os na dyna fyddai'r gymuned eisiau.

DR wedi bod trwy hen gofnodion o Tachwedd 2013 ynglyn a'r adeiladau – Cyngor Conwy wedi dweud 29/6/13 fod gan y perchennog 5 mlynedd i wneud rhywbeth efo'r adeilad. Cyngor Conwy ddim yn meddwl fod digon o le i orfodi'r perchennog i wneud rhywbeth ar y pryd.

Cafwyd trafodaeth a'r ymateb oedd nad yw'r Cyngor Cymuned yn fodlon cymeryd y baich am yr adeilad ar brydles. GLL yn gofyn petai'n syniad gofyn i'r gymuned os oedd rhywun â diddordeb a chynigwyd rhoi nodyn yn y Gadlas i hysbysu. GLL am ysgrifennu at y perchennog hefyd yn dweud na fyddai'r Cyngor Cymuned yn mynd ymlaen â chymeryd yr adeiladau ar brydles ond yn hytrach buasai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi eu dymchwel.

GLL am roi adborth i Linda Kettle am y drafodaeth.

4.2 Tysysgrifau Gwobr Pentrefi – Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig - Adroddod AV fod Pwyllgor y Ganolfan wedi rhoi caniatad i'w rhoi fyny yn yr Estyniad. EW i drefnu cael fframiau i'r tystysgrifau.

4.3 Cau allt Pandy 20/02/19 hyd 03/03/19

EW yn codi gohebiaeth am ail-darmacio o Arfryn lawr i'r bont yn Pandy. Nid yw'r ohebiaeth yn glŵr os yw'r ffordd yn cael ei chau neu ddim ond trafodwyd ei bod yn debygol iawn y byddai'n rhaid cau'r ffordd dros dro gan fod y ffordd yn gul.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

CR wedi gofyn am estyniad i yrru sylwadau gan nad oedd posibl cael cyfarfod wythnos diwethaf oherwydd yr eira.

5.1 Cais 0/45882. Soniodd EHE fod angen i'r llofft fod yn *ancillary* i'r tŷ a ddim yn cael ei ddefnyddio fel annedd arwahan. Dim gwrthwynebiad.

5.2 Cais 0/45891. REW yn erbyn newid defnydd o sied amaethyddol gan fod y cyngor wedi nodi o'r blaen bod newid o ddefnydd amaethyddol ddim yn iawn. Penderfynwyd gwneud sylwad yn ôl fod y cais gyntaf yn *sui generis*, cadw'r sylwad adborth yn niwtral.

6 DYLETSWYDDAU CLERC

Trafododd EW fod Enlli Vaughan am gadw'r cofnodion o hyn allan, eu cyfieithu a chyfathrebu efo Arfon Parry i roi'r cofnodion ar wefan Bro Cernyw. Cyflog *pay grade* clerc – EW i gadarnhau £9.02 yr awr, â chostau teithio.

7 MATERION ARIANNOL

7.1 Mandad cyfrif ariannol – diweddiariad gan EW. Tynnu Ian Griffiths, Ifor Edwards ac Elwen Owen o'r cyfrif. EW yn aros i'r banc ddod nôl ati i gael trefnu mynd mewn i'r banc i symud ymlaen efo hyn.

7.2 Cynnig gwaith ariannol i gyfrifydd - EW am gael sgwrs pellach efo Iona Edwards. EHE wedi gyrru ebost yn holi Iona Edwards petai'n gwneud y gwaith oedd DR wedi ei wneud a gwaith BDO. REW yn codi gofyn i Iona Edwards gymeryd y gwaith ariannol i gyd fel bod cysondeb. Trafodwyd y buasai'n syniad cychwyn hyn o Ebrill 2019 i gyd-fynd a'r flwyddyn ariannol. EW i holi am y gôst o wneud y gwaith i gyd.

7.3 Cronfa Bro Cernyw – cais diweddar gan Gymdiethas Rhieni ac Athrawon. EW yn holi os ydi'r Cyngor Cymuned am gysidro ceisiadau newydd neu fel cais arwahan ar hyn o bryd. Hwylus cael y ceisiadau efo'u gilydd ond dim gwrthwynebiad cymeryd ceisiadau dros y flwyddyn. Edrych eto ar y canllawiau cyn hysbysebu tro nesa – angen cyfarfod arwahan i drafod hyn. Bydd angen chwilio cyfrifiadur Elwen i gael hyd i gopi electroneg. Trafod y cais yma ac unrhyw gais arall ddaw i law yn y cyfamser yng nghyfarfod mis Mawrth. EW am holi ymhellach efo Menter Hiraethog.

8 ADRODDIADAU

8.1 Cynghorydd Sir – Garfield Lloyd Lewis

Iard y Stag – Antoinette Mackeson Sandbach (AMS) yw'r perchennog. GLL wedi holi'r perchennog beth yw'r cynlluniau ar gyfer Iard y Stag - AMS am ei ddatblygu ar gyfer catrefi i'w rhentu allan. Trafodwyd fod y safle wedi ei ddynodi fel datblygiad economaidd. AMS ddim yn cytuno efo'r dynodiad hwn a byasai'n well ganddi ddatblygiad unedau cartrefi i'w rhentu allan. Buasai rhaid iddi fynd drwy'r broses o newid y defnydd. AMS efo datblygiadau eraill ymlaen ar hyn o bryd ond hyn i'w ystyried ganddi yn y dyfodol.

Yr Hen Ficerdy – wedi llythyru'r perchennog eto. Datblygiad diweddar fod y cwmni yswiriant wedi setlo am gyflog y staff. Mae llythyrau yn mynd i'r staff gan y perchennog am hyn. GLL wedi ysgrifennu'n ôl i holi beth yw'r bwriad gyda'r adeilad.

Cynllun Cludiant Cymunedol – eisiau gwneud ymholiad yn y 4 pentref (Llangernyw, Pandy Tudur, Gwytherin a Llanfair Talhaearn) i weld os oes digon o alw i wasanaeth ffonio i deithio gan mai'r teimlad yw fod bysiau ddim digon rheolaidd. Cais wedi ei wneud. EHE dal ddim yn sicr faint o grant oedd bosib gael. Bydd holiadur yn cael eu yrru i'r tai yn y pentrefi a bydd syrjyri yn cael ei gynnal gan GLL yn y pentrefi i fesur y galw a darganfod pa fath o wasanaeth sydd angen. Transport for Wales yn dechrau edrych ar fysiau mewn ardaloedd gwledig i greu cysylltiadau gwell rhwng gwlad a thref.

Fforymau lleol mewn 5 ardal wledig – pontio'r cyngor sir a'r cyngorau lleol i rannu gwybodaeth. Helpu i glywed llais yr ardaloedd gwledig yn y Cyngor Sir. EHE hefyd yn son gwneud gweithdy i bontio a bwydo mewn i'r fforymau sydd ar y gweill. GLL am roi adborth pan fydd ganddo fwy o wybodaeth i fynd ymlaen efo hyn. BDO dal efo 2 flynedd ar y tender cyn iddo ddod i ben.

Arwydd ger waelod allt Cefn Isaf – dal heb gael ei newid. GLL wedi ysgrifennu eto i holi pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud. Swyddogion wedi bod allan efo GW a GLL – addewid i'w newid cyn diwedd Chwefror.

Cyngor Sir – Cyngor llawn diwedd Chwefror i osod y gyllideb. Adrodd bydd torriadau ar draws holl adrannau'r Cyngor. GLL yn adrodd fod gan Conwy % uwch o bobl hyn yn y sir yn uwch na Japan ac yn codi. Posibilrwydd o godi treth y cyngor i 9% neu 11%.

8.2 Diane Roberts – Cyfarfod Un Llais *Challenges Facing Local Governments in North Wales* 16/01/19. Adroddod bwyntiau cafodd eu trafod. Gweithio mewn partneriaeth yw'r ffordd ymlaen yw'r neges o'r cyfarfod. Llauer yn cwyno yn y cyfarfod am BDO. Rhaid i bob cyngor wneud adroddiad blynyddol, bydd canllawiau yn dod gan Un Llais yn fuan. Cyfarfod nesaf ym Mhentrefoelas 16/04/19. Diolchwyd iddi am fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor Cymuned.

9 BLWCH FFÔN PANDY TUDUR

Gohebiaeth gan Bwyllgor Cymdeithasol Pandy Tudur sydd wedi bod yn gwneud ymholiadau am yswiriant ond wedi methu gan nad y Pwyllgor yw'r perchennog. Gofynnir fod y Cyngor Cymuned yn cadw meddiant a'i yswirio ond buasai'r Pwyllgor Cymdeithasol yn gyfrifol am ei redeg o ddydd i ddydd. GW yn cynnig cytuno i'r uchod, EHE yn eilio. EW i yrru nôl at y Pwyllgor i gadarnhau.

Trafodaeth am yr yswiriant – angen gwneud yn siwr fod y cwt storfa ym mynwent Gwytherin a'r blychau ffôn wedi eu hyswirio. Ymholiadau i'w gwneud ynglyn a hyn – EW i ddelio.

Blwch Ffôn Llangernyw – EW wedi gyrru at yr Ysgol yn ei gynnig iddynt ond dal ddim ateb.

10 GOHEBIAETH

Carer's Trust North Wales Crossroads Care Services yn gofyn am arian – Gwasanaeth Gofal Croesffyrdd. Penderfynwyd peidio rhoi gan fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi elusenau eraill.

CVSC – ynglyn â grantiau bychan. Penderfynwyd pasio'r ohebiaeth ymlaen i Nicola Davies, Bwrlwm Bro (cynrychiolwr Cyngor Chwaraeon Bro Cernyw).

Angen gwybod pa mor hir mae angen cadw cofnodion y Cyngor gan fod gan Elwen Owen gofnodion a dogfennau'r Cyngor Cymuned ers blynyddoedd. GLL am yrru manylion Sian Branwen yn y Cyngor Sir i EW i holi am sawl mlynedd yn statudol sydd angen cadw dogfennau. Bydd angen cael trafodaeth wedyn beth i wneud efo'r dogfennau gan fod deunydd hanesyddol o bosibl yn y papurau.

11 BILIAU

- Einir Williams am rodd Elwen Owen. Wedi cael cadwen iddi fel anrheg a thalu am ei bwyd hi ac Emrys fel gwerthfawrogiad am ei holl waith dros y blynyddoedd. £100.50
- Canolfan Bro Cernyw - £52 (i gynnwys tâl aelodaeth a chwprdd yn y ganolfan)
- Cyflog Elwen – £485.76

12 MATERION LLEOL

Cododd REW y mater o hysbysebu torri'r gwair yn y mynwentydd. Angen trefnu hysbyseb i'r Gadlas cyn gynted a phosibl. – REW i drefnu. REW am ffonio Dei i weld pryd mae'r contract yn/wedi dod i ben.

- **EHE** – cais am arian i gael gwe ffeibr i adeiladau cyhoeddus ar draws y Gogledd. Posibl cael gwe ffeibr mewn i adeiladau lle mae Cynghorau lleol yn cyfarfod. EHE wedi datgan fod gan Pandy Tudur a Gwytherin ddiddordeb ar hyn o bryd.
- **AV** – coeden wedi disgyn yn y fynwent yn Llangernyw. Gwenda Cooper ddim yn siwr pwy sydd berchen y goeden. REW yn cadarnhau ei bod o fewn perchnogaeth y Cyngor. Dim difrod i'r cerrig beddi. Angen trefnu i glirio'r goeden a thrwsio'r canllaw. Penderfynwyd gofyn i Kevin Roberts wneud y gwaith. REW i ofyn iddo. AV i hysbysu Gwenda Cooper.

Twll yn y ffordd rhwng Bryn Gwylan a Bryn yr Aur, tyllau yn y ffordd ger y Felin yn Llangernyw. AV i hysbysu Conwy ar y wefan.

Bob Roberts, Ty Capel am ddod a biliau am y gwaith staenio erbyn mis nesaf a'r amcan bris y gofynwyd amdano.

Costau £10 am hurio Capel y Cwm ar gyfer y cyfarfod heno – dim gwrthwynebiad.

- **REW** – cwyn yn Gwytherin ar ôl i lori falu ffenestri tŷ wrth ddreifio pasio. Gofyn oedd posibl atal lorïau mawr rhag mynd i Gwytherin, GLL i holi os oes modd rhoi arwyddion am y ffyrdd cûl i rybuddio gyrrwyr lorïau mawr. REW i adrodd 'nôl.
- **GW** – cyflwr Ffordd Buarth Cerrig o gyfeiriad Gwytherin i Llangernyw wedi dirywio dros y gaeaf. GLL i wneud ymholiadau ynglyn a hyn.
- **GD** – ffordd heibio Plas yn Blaenau, tua hanner can llath uwch i fyny na Plas yn Blaenau mae'r ffordd yn dechrau rhoi. Angen ei nodi drwy *report it* ar wefan Conwy.
- **EW** – cwestiwn gan aelod o'r cyhoedd yn Llangernyw – dim digon o le i blant ysgol uwchradd loches rhag y glaw. Cwestiynu os oedd bosib rhoi estyniad ar y lloches ger y siop/Stag. Teimlad nad oedd y lloches ger yr ysgol yn cael eu ddefnyddio ac na fuasai'r Cyngor Sir yn fodlon talu am roi estyniad i'r llall.

Cwyn am *broadband* yn Gwytherin. Un teulu'n cael cyflymdra o 2gb, teulu arall yn cael 17gb 1 milltir i ffwrdd – yr ateb a gafwyd oedd oherwydd fod y ddau gartref mewn 2 gabinet gwahanol. Y gŵyn i'w basio ymlaen i GLL iddo gael mynd ar ôl y mater eto efo BT.

13 CYFARFOD NESAF

7:30yh ar yr 20^{fed} o Chwefror 2019 ym Mhandy Tudur

Agenda 20^{fed} Chwefror 2019

- Siarter
- Yswiriant

Cyfarfod yn dod i ben 10yh.

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan.